



DATGANIAD NEWYDDION

07/03/2017

Dementia : Un peth syml

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd Cyngorau Iechyd Cymuned ar hyd a lled Cymru yn gofyn un cwestiwn syml i bobl sydd wedi profi dementia yn eu bywydau, neu i'r rhai hynny sy'n rhoi gofal iddynt, sef:

Beth fedrai'r GIG ei wneud yn well i roi cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr?

Credwn y cawn lais cryf y bobl sydd â phrofiad go iawn o ddementia - ac y bydd gan hyn ddylanwad gwirioneddol ar ddatblygiad cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Strategaeth Dementia i Gymru.

Yn ystod y mis nesaf bydd staff ac aelodau CIC yn dod i siarad gyda phobl ar hyd a lled Cymru. Yn ogystal, gall pobl roi gwybod i ni beth yw eu hawgrym hwy ar gyfer 'Un peth syml' drwy gysylltu â ni ar un o'r dulliau isod.

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyrraedd pobl gan gynnwys Twitter, ap Ffôn Glyfar, trafod wyneb yn wyneb, Rhadbost a ffôn ateb benodol.

O heddiw ymlaen gall pobl roi gwybod eu hawgrymiadau i ni drwy anfon tecst/SMS.

Anfonwch decst i 62277 a byddwn yn ateb yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ofyn am eich barn.

SMS/Tecst – Tecstiwch CIC ar 62277

Ebost – your voice@waleschc.org.uk

Ffôn Ateb benodol – 01248 679284 – Dewisiwch Rhif 4


Gwefan – <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/home>

Ysgrifennwch atom yn 'Un Peth Syml' – CICau Cymru, d/o Uned 11, Llys Castan, Parc Menai, Bangor LL57 4FH

SurveyME – cod QR, dolennau'r we a'r Cod Unigryw



<http://svy.at/xo6o>



DIWEDD

Nodiadau i'r golygyddion

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru (CICau) yn gyrrff statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau'r cleifion a'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol drwy Gymru.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, neu i gael cyfweiliad gyda Mr Geoff Ryall-Harvey, cysylltwch gyda: CIC Gogledd Cymru, rhif ffôn: 01248 679284 neu Ebst: geoff.ryall-harvey@waleschc.org.uk